THE WELSH BEEKEEPERS' ASSOCIATION
CYMDEITHAS GWENYNWYR CYMRU

Adroddiad Blynyddol

1 Ionawr 2016 i 31 Rhagfyr 2016

Ymddiriedolwyr:

Cadeirydd	Jennifer Shaw (etholwyd CCB 2014)
Is-Gadeirydd	Andrew Ryan (ymddiswyddodd CCB 2016)) – Ymddiriedolwr ers CCB Mawrth 2014
Trysorydd	Graham Wheeler (etholwyd SGM 7.11.15) – Ymddiriedolwr ers CCB Mawrth 2014
Ysgrifennydd Cyffredinol	Gwag
David John Bowles	(etholwyd CCB 2014)
Christopher Clarke	(etholwyd CCB 2016))
Lesley Williams	(etholwyd CCB 2016))
Ian Hubbuck	(cyfetholwyd MM 03.08.16)

Swyddogion:

Llywydd	Tony Shaw (etholwyd CCB 2016)
Is-lywydd	Fred Eckton
Ysgrifennydd Aelodaeth	Ian Hubbuck
Ysgrifennydd Cofnodion	Gwag ar hyn o bryd
Ysgrifennydd y Cynulliad	Jill Wheeler (penodwyd 11.09.15)
Ysgrifennydd Arholiadau	Lynfa Davies (ymddeol yn CCB 2017)
Rheolwr y Wefan	Grant Williams
Golygydd	Grant Williams (penodwyd 06.02.15)
Is-olygydd	Elin Meek (penodwyd 7.12.15)
Swyddog Technegol	Wally Shaw
Swyddog Yswiriant	John Bowles
Swyddog Iechyd a Diogelwch	John Pilgrim (penodwyd 2016)
Swyddog Cyhoeddusrwydd a'r Wasg	Angharad Westmore (penodwyd 2016)
Archif CGC	Ian Hubbuck (2016)
Swyddog COLOSS CGC	Ian Hubbuck (2015)

Mae pob un o ymddiriedolwyr a swyddogion CGC yn rhoi ei amser yn wirfoddol heb dderbyn tâl neu fanteision eraill. Mae CGC yn ddyledus i'r gwirfoddolwyr hyn am eu hewyllys da a'u hymdrechion parhaus ar ran y Gymdeithas.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried yr arweiniad a gyhoeddodd y Comisiwn Elusennau ynghylch lles y cyhoedd.

Ein Nodau a'n Hamcanion:

Annog, gwella a hyrwyddo cadw gwenyn ledled Cymru drwy:

- ddatblygu cydweithredu ymysg yr holl wenynwyr ledled Cymru a chyfnewid syniadau a phrofiadau,
- gwella safon cadw gwenyn drwy:
  i. gyhoeddi llenyddiaeth,
  ii. darparu a rhoi cymorth i ddarparu cymhorthion a deunyddiau addysgol am gadw gwenyn,
  iii . annog hyfforddi a chymhwyso gwenynwyr,
- trefnu arholiadau cenedlaethol ar lefelau amrywiol,
- annog y gymuned i gymryd rhan mewn arsylwi a dysgu am wenyn yn ddiogel, a dod i werthfawrogi gwerth gwenyn yn yr amgylchedd.

THE WELSH BEEKEEPERS' ASSOCIATION
CYMDEITHAS GWENYNWYR CYMRU

Gweinyddol

Ceir rhestr lawn o'r cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Cyfarfu'r Ymddiriedolwyr gyda Chyngor CGC dair gwaith (misoedd Mawrth, Mehefin a Tachwedd) i adrodd ar waith y Tîm Rheoli ac i geisio arweiniad gan yr aelodau. Ym mhob un o'r cyfarfodydd hyn roedd o leiaf 60% (11) o Aelod Gymdeithasau CGC wedi eu cynrychioli ac fe fynychodd 84% (16) o Gymdeithasau o leiaf un cyfarfod. Mae cofnodion pob cyfarfod Tîm Rheoli wedi eu cylchredeg drwy Ysgrifenyddion y Cymdeithasau. Mae cyfarfodydd Cyngor wedi eu trefnu ar 4 Mawrth, 24 Mehefin a 4 Tachwedd 2017. Bydd y Tîm Rheoli'n cyfarfod o leiaf bedair gwaith yn 2017 gyda'r cyfarfod cyntaf ar 28 Ionawr. Mae lleoliad a dyddiad y cyfarfodydd Tîm Rheoli yn adlewyrchu argaeledd a chyfeiriadau cartref yr Ymddiriedolwyr er mwyn sicrhau bod y nifer uchaf posibl yn bresennol a bod y costau teithio'n cael eu cadw mor isel â phosibl.

Cafodd swyddogion CGC nad ydynt yn Ymddiriedolwyr eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd y Tîm Rheoli yn ystod 2016 i helpu gyda gwaith yr ymddiriedolwyr. Gwahoddwyd yr Aelod Gymdeithasau i anfon arsylwyr i gyfarfodydd y Tîm Rheoli ym mis Hydref i ddeall sut mae busnes arferol CGC yn cael ei gynnal. Anfonodd pedwar o'r cymdeithasau hyn gynrychiolwyr: Brycheiniog a Maesyfed, Caerfyrddin, Ceredigion a Glannau Teifi.

Arweiniodd y diffyg gwirfoddolwyr i ymgymryd â rolau gyda CGC, yn enwedig fel ymddiriedolwyr, at y Tîm Rheoli'n gofyn i Aelod Gymdeithasau drafod ac adrodd ar beth yr oedden nhw am ei dderbyn drwy fod yn rhan o CGC. Cafodd rhestr o'r gofynion ei lunio yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd. Mae'r rhestr wedi cael ei gylchredeg a bydd yn ffurfio sail ar gyfer dogfen ymgynghorol fydd yn cael ei hanfon allan yn gynnar yn 2017.

Mae gwaith yn parhau i ychwanegu at bolisïau CGC a diweddaru eraill, gyda'r cyfan ar gael ar wefan CGC. Yn benodol, mae cyngor ar gael ynghylch cynnwys plant yng ngweithgareddau'r Gymdeithas ac mae Cod Ymddygiad ar gael i Ymddiriedolwyr. Unwaith eto, rydym yn ddyledus i wasanaeth ein cyfieithwyr sydd wedi helpu'r Tîm Rheoli i ddarparu dogfennau dwyieithog ar gyfer gwenynwyr yng Nghymru.

Rydym mewn sefyllfa bellach lle mae modd ymdopi gyda cholli'r trysorydd yn sydyn heb effeithio'n ormodol ar allu'r Tîm Rheoli i redeg busnes arferol CGC. Mae gwaith yn parhau i gael darpariaeth debyg ar gyfer rolau hanfodol eraill.

Yswiriant: Mae sicrwydd yswiriant CGC yn seiliedig ar nifer o amodau yn cynnwys yr angen i dalu'r pris y pen yn brydlon. Dylai'r Cymdeithasau dalu'r pris y pen erbyn 1 Ionawr bob blwyddyn, ond mae lwfans yn cael ei wneud cyn belled â bod yr holl arian dyledus wedi'i dderbyn erbyn 31 Mawrth y flwyddyn honno. Atgoffir Aelod Gymdeithasau am yr angen i dalu'n brydlon. Mae adroddiad ar wahân gan y Swyddog Yswiriant i'w weld yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

Cronfeydd Ariannol: Mae'r polisi Cronfeydd Wrth Gefn yn dweud y bydd yr Elusen (CGC) yn cadw cronfa wrth gefn o £10,000 i £13,000. Mae angen y gronfa wrth gefn hon yn ôl y Gyfraith Elusennau i dalu am gostau gweithredol a chytundebol petai'r angen yn codi. Bydd y polisi hwn yn cael ei fonitro a'i ddiweddaru yn flynyddol.
Defnyddir yr arian yng nghyfrif cyfredol HSBC nid yn unig i dalu am gostau rhedeg y Gymdeithas ond hefyd i ariannu amryw o brosiectau fel rhedeg cyrsiau a lledaenu gwybodaeth, drwy amryw o ddulliau, fel y wefan, cyhoeddiadau a llyfrynnau.

Mae adroddiad ariannol manwl yn cyd-fynd â'r ddogfen hon.

THE WELSH BEEKEEPERS' ASSOCIATION
CYMDEITHAS GWENYNWYR CYMRU

Llywodraethu: Yn ystod 2016 mae nifer o ffactorau wedi rhwystro'r Tîm Rheoli wrth eu gwaith o redeg busnes arferol CGC ac yn y pendraw mae hyn wedi cyfyngu ar eu gweithgareddau. Mae methiant CCB 2016 i benodi Ysgrifennydd Cyffredinol ac Is-Gadeirydd a'r methiant i recriwtio'r nifer llawn o Ymddiriedolwyr wedi cynyddu llwyth gwaith llawer o'r Swyddogion wrth sicrhau bod tasgau hanfodol yn cael eu cwblhau. Mae'r Ymddiriedolwyr yn ddiolchgar i'r Ysgrifennydd Aelodaeth, Ian Hubbuck, sydd wedi hwyluso cylchredeg gwybodaeth gan y Tîm Rheoli i'r Aelod Gymdeithasau drwy gydol y flwyddyn ac am gytuno i gael ei gyfethol yn Ymddiriedolwr yn ystod y flwyddyn. Yn CCB 2017 bydd dau o'r Ymddiriedolwyr, Andy Ryan a Jenny Shaw, yn ymddeol heb geisio cael eu hail-ethol. Bydd y ddau wedi cwblhau penodiad 3 blynedd, a diolchwn iddynt am eu hymdrechion ar ran CGC.

Mae nifer o swyddogion nad ydynt yn ymddiriedolwyr wedi cael eu recriwtio yn ystod 2016. Estynnwn groeso i Angharad Westmore yn Swyddog y Wasg a Chyhoeddusrwydd ac yn weinyddydd cyfrifon Facebook a Twitter CGC. Croeso hefyd i John Pilgrim yn Swyddog Iechyd a Diogelwch ac i Ian Hubbuck yn Archifydd. Er gwaethaf y llwyddiant yma, mae swydd Ysgrifennydd Cofnodion yn dal yn wag. Yn y CCB bydd Lynfa Davies yn gadael y swydd o Ysgrifennydd Arholiadau ar ôl tair blynedd yn y rôl. Dymunwn fachu ar y cyfle hwn i ddiolch i Lynfa am yr holl waith y mae hi wedi'i wneud ar ran CGC. Mae'n dda gallu cadarnhau bod rhai wedi cytuno i ymgymryd â swydd Ysgrifennydd Arholiadau i ddilyn Lynfa.

Aelodau: Mae gan CBC bedair ar bymtheg o Gymdeithasau Cyswllt, gyda chyfanswm yr aelodau yn 1,762. Fel rhan o'r ffi flynyddol y pen sy'n cael ei osod ar bob Cymdeithas Gyswllt mae'r aelodau Anuniongyrchol yn elwa drwy dderbyn pedwar rhifyn o 'Gwenynwyr Cymru' ac Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus a Chynnyrch trydydd parti. Ar hyn o bryd mae pump ar hugain Aelod Unigol o Gymdeithas Gwenynwyr Cymru ac wyth Aelod Anrhydeddus. Mae dadansoddiad manwl o'r aelodaeth yn dod gyda'r adroddiad hwn.

Gwefan: Yn dilyn ymgynghori gyda Chyngor CGC ym mis Tachwedd byddwn yn cynnal arolwg o'r wefan yn 2017 i ymgorffori'r farn sy'n cael ei mynegi gan yr aelod gymdeithasau.

Cylchgrawn Gwenynwyr Cymru: Cafodd y pwyllgor golygyddol ei ailstrwythuro yn 2016 ac mae'n cyfarfod i roi cefnogaeth i'r golygydd ac hefyd yn gweithredu fel tîm golygyddol ar gyfer pob rhifyn o'r cylchgrawn. Cafodd contract ei gytuno gyda'r argraffwyr S&G i gynnwys gweithdrefnau gwarchod data i sicrhau bod manylion cyswllt gwenynwyr yn cael eu trafod yn ddiogel ac ond yn cael eu defnyddio i ddosbarthu'r cylchgrawn.

Cyhoeddiadau: Cafodd llyfryn Llywodraeth Cymru 'Mae celloedd brenhines yn fy nghwch – beth dylwn i wneud?' ei ddiwygio gan Swyddog Technegol CGC, Wally Shaw, a'i ddosbarthu i bob aelod o CGC gyda rhifyn y Gwanwyn o Gwenynwyr Cymru. Mae copïau ychwanegol ar gael i Aelod-Gymdeithasau yng nghyfarfodydd y Cyngor.

Cafodd nifer o daflenni wedi eu hanelu at y cyhoedd eu cynhyrchu a'u gwneud ar gael i'r Cymdeithasau drwy gyfrwng gwefan CGC. Gofynnwyd i Gyngor CGC awgrymu pa daflenni ddylai gael eu cynhyrchu yn y dyfodol.

Logo: Cafodd cystadleuaeth ei drefnu yn gynnar yn 2016 i ddylunio logo ar gyfer CGC. Ym mis Mawrth pleidleisiodd Cyngor CGC i ohirio'r gystadleuaeth a pheidio penodi enillydd. Ym mis Tachwedd pleidleisiodd y Cyngor i beidio newid Logo CGC.

Dathlu Tri Chwarter Canrif: Cafodd CGC ei ffurfio yn 1943 a bydd 2018 yn dathlu 75 mlynedd ers sefydlu'r Gymdeithas. Mae trafodaethau'n digwydd ar gynnal 'Ysgol Haf' yn 2018 a bydd cynnig manwl yn cael ei gyflwyno i Gyngor CGC unwaith y bydd yn barod.

Colledion y Gaeaf: Cafodd saith deg chwech (76) o aelodau eu dewis ar hap a'u hannog i gymryd rhan yn Arolwg Colli Cytrefi Ewrop (European Colony Loss Survey - COLOSS) ar gyfer gaeaf 2015/16. Anfonodd pum deg tri y cant (53%) o'r rhai gafodd eu dewis fanylion am eu colledion. Mae'r canlyniad cychwynnol gan COLOSS yn cofnodi i Gymru, ynghyd â'r Alban ac Iwerddon, gael colledion uwch na'r cyfartaledd, o gymharu â gwledydd eraill Ewrop, yn ystod gaeaf 2015/16. Nid yw gwenynwyr yn Lloegr yn cyflwyno gwybodaeth ar golledion y gaeaf i COLOSS gan bod BBKA yn trefnu ei arolwg ei hun yn flynyddol. Diolch i Ian Hubbuck am drefnu arolwg CGC.

Nawdd: Rhoddodd CGC nawdd i Gonfensiwn Siroedd y Canolbarth a'r De Ddwyrain (MSWCC) gafodd ei drefnu yn 2016 gan Gymdeithas Gwenynwyr Abertawe a'r Cylch ac a gynhaliwyd ym mis Hydref ar Benrhyn Gŵyr.

Bydd Cymdeithas Gwenynwyr Prydain yn cynnal cyfarfod Gwenynwyr Ifanc Rhyngwladol 2017 yn Malborough ym mis Gorffennaf. Cafodd CGC wahoddiad i ffurfio tîm ond er gwaethaf nifer o alwadau am gystadleuwyr, ni ddaeth neb ymlaen. Mae'r dyddiad cau bellach wedi bod.

Archif: Mae gwaith yn dal i gael ei wneud yn casglu dogfennau hanesyddol CGC i lunio archif wedi i holl ddeunydd CGC oedd yn cael ei gadw yn y Llyfrgell Genedlaethol gael ei ddinistrio mewn tân. Rydym yn ddyledus i Ian Hubbuck am ei waith caled yn canfod a storio'r dogfennau hanesyddol hyn. Gobeithiwn y bydd unrhyw un sydd â dogfennau perthnasol o cyn 2005 yn ystyried eu cynnig i gael eu copïo, os nad yw Ian eisoes wedi bod mewn cysylltiad.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi gweithio gyda nifer o asiantaethau allanol yn ystod 2016 i sicrhau bod gwenynwyr Cymru'n cael gwybodaeth lawn ac yn cael eu cefnogi ar lefel Cymru, y DU ac Ewrop. Rhoddir rhestr o'r cyfarfodydd allanol a fynychwyd gan CGC isod.

Fforwm Ymgynghorol Iechyd Gwenyn (y DU): Ceir manylion yn adroddiad y Swyddog Technegol isod.

Tasglu Pryfed Peillio Cymru: Ym mis Medi 2016 lansiodd Llywodraeth Cymru gynllun wedi'i anelu at hyrwyddo Cymru fel y wlad gyntaf i fod yn 'Gyfeillgar i Wenyn'. Drwy'r Tasglu Pryfed Peillio mae CGC wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddylunio a lansio'r cynllun hwn. Mae gwybodaeth am y cynllun 'Cyfeillgar i Wenyn' a sut y gall gwenynwyr gymryd rhan wedi cael ei hanfon at yr holl aelod gymdeithasau ac mae dolen ar wefan CGC. Gobeithiwn y bydd yr holl gymdeithasau a'u haelodau'n cefnogi'r cynllun hwn drwy annog sefydliadau, grwpiau, ysgolion ac ati nad ydynt fel arfer yn gysylltiedig â phryfed peillio i gael eu cydnabod yn 'Gyfeillgar i Wenyn'.

CONBA: Mae Cymdeithasau Gwenyna Cymru, Lloegr, yr Alban ac Iwerddon yn ogystal â'r Gymdeithas Ffermwyr Gwenyn gyda'i gilydd yn ffurfio CONBA sy'n cefnogi buddiannau pob gwenynwr a gwenyna yn y DU.

NDB: Y Diploma Cenedlaethol mewn Gwenyna yw'r cymhwyster gwenyna academaidd ffurfiol uchaf sydd ar gael yn y DU. Yn ogystal â dyfarnu'r Diploma mae'r NDB hefyd yn rhedeg cyrsiau byrion ar bynciau penodol sydd o ddiddordeb i rai o'n haelodau. Mae CGC yn gweithio i annog NDB i redeg cyrsiau byrion yng Nghymru.

Cyfarfodydd Mewnol CGC:
25 Ionawr – Y Tîm Rheoli – Ymddiriedolwyr a swyddogion eraill (Dolgellau)

12 Chwefror – Cyfarfod golygyddol (Dolgellau)

5 Mawrth – CCB, Cyfarfod Cyngor a chyfarfod y Pwyllgor Digwyddiadau – (Pontnewydd-ar-Wy)

11 Mai – Y Tîm Rheoli – Ymddiriedolwyr a swyddogion eraill (Dolgellau)

25 Mehefin – Cyfarfod Cyngor a chyfarfod y Pwyllgor Digwyddiadau – (Llandrindod)

12 Gorffennaf – Cyfarfod gyda'r Golygydd ynghylch Cylchgrawn Gwenynwyr Cymru (Dolgellau)

3 Awst – Y Tîm Rheoli – Ymddiriedolwyr a swyddogion eraill (Dolgellau)

22 Hydref – Y Tîm Rheoli – Ymddiriedolwyr, swyddogion eraill a chynrychiolwyr y Gymdeithas, (New Inn, Pontnewydd-ar-Wy)

5 Tachwedd - Cyfarfod Cyngor a chyfarfod y Pwyllgor Digwyddiadau (Llanbister)

Cynrychiolaeth CGC mewn Cyfarfodydd Allanol 2016:
Jenny Shaw (J.S.), John Bowles (J.B.), Leslie Williams (L.W.), Wally Shaw (W.S.), Trisha Marlow (T.M.),

1 Mawrth – Cyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol - New Haw, Surrey (J.B.)

16 Mawrth – Fforwm Ymgynghorol Iechyd Gwenyn: Llundain (W.S. a J.B.)

6 Ebrill – CONBA: Harper Adams (JS a JB)

1 Mehefin – Cyfarfod Rhanddeiliaid RCVS (Coleg Brenhinol Milfeddygon) a Chinio: Caerdydd (J.B.)

17 Mehefin – Tasglu Pryfed Peillio Cymru: Y Drenewydd (J.S.)

12 Gorffennaf – Agoriad swyddogol Plas Pilipala: Caerfyrddin (L.W.)

7 Medi – Cynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a lansio 'Cyfeillgar i Wenyn' Bangor (J.S.)

26 Hydref – CONBA: Esher, Surrey (J.S. a W.S.)

28th Hydref – NDB: Esher, Surrey (T.M)

8th Rhagfyr - Fforwm Ymgynghorol Iechyd Gwenyn: Llundain (J.B. a W.S.)

ADRODDIADAU

Y Pwyllgor Dysgu a Datblygu:

1. Nid yw'r Pwyllgor Dysgu a Datblygu wedi cyfarfod wyneb yn wyneb yn ystod 2016. Mae'r gwaith wedi ei gyflawni drwy ddefnyddio e-byst.
2. Yn ystod 2016 cyhoeddwyd llyfryn diwygiedig (Mae Celloedd Brenhines yn fy Nghwch). Cafodd ei ysgrifennu gan Wally Shaw, a'i ddosbarthu i bob aelod sy'n derbyn y cylchgrawn Gwenynwyr Cymru drwy'r post. Mae'r llyfryn hefyd wedi ei osod ar wefan GCG. Llywodraeth

Cymru gynhyrchodd y llyfryn hwn yn wreiddiol, ond doedd dim ar ôl ac nid oedd Llywodraeth Cymru'n fodlon talu am ailargraffiad.

3. Mae pedair taflen wedi cael eu cynhyrchu i'w dosbarthu mewn sioeau mae CGC yn eu mynychu. Mae'r taflenni hefyd wedi cael eu rhoi ar wefan CGC i wenynwyr eu defnyddio ac i Gymdeithasau Gwenyna.
4. Mae'r canlynol ar y gweill i'w cynhyrchu yn ystod 2017:-
   a. Taflen CGC – yn "hysbysebu" rôl CGC a'i manteision.
   b. Mae llyfryn "Harvesting Honey", gan Wally Shaw, ar hyn o bryd ar ffurf drafft, a gobeithiwn ei ddosbarthu gyda rhifyn y Gwanwyn Gwenynwyr Cymru.
   c. Mae CGC wedi rhedeg allan o'u stoc o Gardiau Clefydau Gwenyn Mêl. Mae cardiau newydd dwyieithog gyda pheth gwybodaeth ychwanegol yn y broses o gael eu cynhyrchu. Byddant yn cael eu dosbarthu i bob aelod unwaith y byddant ar gael.

Arholiadau ac Asesiadau

Adroddiad Blynyddol 2016 – Adroddiad yr Ysgrifennydd Arholiadau
Asesiadau Sylfaenol

Daliodd CGC ati i hyrwyddo a chynnig Asesiadau Sylfaenol i'r aelodau yn ystod 2016 a derbyniwyd 54 cais. O'r rhain, cafodd 45 eu cwblhau gyda'r gweddill yn cael eu cadw tan 2017. Mae'r rhestr ganlynol yn dangos nifer yr ymgeiswyr o bob cymdeithas.

De Clwyd	1
Llanbedr Pont Steffan	1
Dwyrain Sir Gaerfyrddin	1
Brycheiniog a Maesyfed	6
Abertawe	5
Fflint a'r Cylch	7
Caerdydd	6
Conwy	6
Glannau Teifi	6
Sir Benfro	13
Pen-y-bont ar Ogwr	2

Yn 2016, gyda chaniatâd BBKA, fe fu i ni fabwysiadu eu Hasesiad Sylfaenol. Mae ganddyn nhw wyth fersiwn o'r asesiad, gydag un yn cael ei ddewis ar hap i bob ymgeisydd. Mae hyn wedi caniatáu i ni gyflymu'r asesiadau gan nad yw pob agwedd o'r maes llafur yn cael ei gynnwys yn asesiad yr ymgeisydd ond mae'n rhaid i'r ymgeisydd baratoi'n llawn. Y gwahaniaeth arall yw bod yr asesiad wedi'i rannu'n 4 adran: Triniaeth ac offer, astudiaethau natur a gwenyna, heidio a chlefydau. Rhaid i'r ymgeisydd sgorio o leiaf 50% ym mhob adran er mwyn pasio sy'n golygu nad yw'n gallu dibynnu ar bod yn gryfach mewn rhai adrannau i wneud iawn am adrannau gwannach. Mae'r wybodaeth ganlynol yn dangos canran y bobl a basiodd yn y gwahanol fandiau:

GRADD	Nifer yr ymgeiswyr
Dan 50% (Methu)	1
50-60%	0
61- 80%	32
81-100%	12

Mae'r cyfraddau pasio hyn yn dangos fod ymgeiswyr wedi paratoi'n dda iawn ac o'r hyn rydw i wedi'i weld wrth ymweld â Chymdeithasau, mae hyn diolch i ymdrechion Swyddogion Hyfforddi'r Cymdeithasau. Cafodd y rhan fwyaf o'r asesiadau eu cynnal yng ngwenynfeydd y Cymdeithasau fel

bod yr aseswyr yn gallu arholi mwy nag un ymgeisydd ym mhob sesiwn. Dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o drefnu Asesiadau Sylfaenol ac mae CGC yn ddiolchgar i Reolwyr Gwenynfeydd y Cymdeithasau a'r Swyddogion Hyfforddi am eu help wrth drefnu'r dyddiau asesu hyn.

Diolch hefyd i'r holl aseswyr sy'n cynnig eu hunain i asesu ymgeiswyr yn ystod cyfnod sy'n brysur iawn i gwenynwyr.

Modiwlau:
Ym mis Mawrth 2015 newidiodd CGC i ddefnyddio gwasanaethau BBKA o ran darparu modiwlau ac arholiadau ymarferol uwch. Mae hyn yn gofyn i bob ymgeisydd dalu ffi aelodaeth blynyddol ar gyfer arholiadau i BBKA a gafodd ei dalu gan CGC yn ystod 2015 a 2016. Cytunodd Cyngor CGC i barhau i dalu'r ffi hwn ar gyfer 2017 yn eu cyfarfod Cyngor ym mis Tachwedd 2016. Roedd 11 ymgeisydd yr oedd arnynt angen yr aelodaeth hon ar gyfer 2016 ar gost o £9 yr ymgeisydd. Mae'r wybodaeth ganlynol yn dangos nifer y modiwlau a'r arholiadau ymarferol uwch a safwyd ym mis Mawrth 2016 (safwyd y modiwl Hwsmonaeth Uwch yn ystod yr haf).

Arholiad	Nifer yr ymgeiswyr	Nifer y rhai a basiodd
Modiwl 1	4	1 (1 yn ohiriedig)
Modiwl 2	1	1
Modiwl 3	1	0
Modiwl 5	1	0
Modiwl 6	1	0
Modiwl 8		
Hwsmonaeth Uwch	1	1

Mae'r canlyniad isel hwn yn siomedig ac mae'n amlygu'r angen am baratoi'n dda cyn sefyll yr asesiadau hyn. Gobeithio y bydd canlyniadau'n gwella yn y dyfodol a gobeithio y bydd cymdeithasau'n adeiladu ar y llwyddiant y maen nhw'n ei gael gyda'r Asesiadau Sylfaenol.

Ar nodyn mwy cadarnhaol, enillodd Stephen Davies o Abertawe ei dystysgrif Meistr mewn Gwenyna drwy lwyddo yn ei Asesiad Hwsmonaeth Uwch. Mae hyn yn gyflawniad gwych ac yn gwbl haeddiannol.

Ym mis Tachwedd 2016, bu ymgeiswyr yn sefyll y Modiwlau canlynol.

Arholiad	Nifer yr ymgeiswyr
Modiwl 1	3
Modiwl 3	1
Modiwl 5	1
Modiwl 6	1

Dyma ganlyniadau Modiwlau mis Tachwedd:

Caroline Mullinex	Modiwl 1	Clod
Margaret Gill	Modiwl 3	Rhagoriaeth
Mike Lax	Modiwl 5	Clod

Llongyfarchiadau i'r ymgeiswyr hyn a rhaid nodi hefyd fod Mike Lax ac Andy Ryan wedi derbyn eu Tystysgrifau Theori Canolradd. Ar ben hyn, mae BBKA yn dyfarnu bathodyn Gwenynwr Cymwys i'r rhai sydd wedi llwyddo yn eu Theori Canolradd a'u Hwsmonaeth Cyffredinol. Mae Mike Lax wedi cyrraedd y safon hwn ac wedi derbyn ei fathodyn Gwenynwr Cymwys.

Byddaf yn ymddiswyddo fel Ysgrifennydd Arholiadau yn CCB 2017 ar ôl treulio tair blynedd yn y swydd, ond byddaf yn parhau fel asesydd. Byddaf yn hapus iawn i gefnogi'r ysgrifennydd newydd yn ei swydd newydd gan obeithio y bydd yn ei chael hi mor ddiddorol a gwerthfawr ag y gwnes i.

Lynfa Davies
Ysgrifennydd Arholiadau CGC

Y Pwyllgor Digwyddiadau:

a) Daeth 482 o bobl o bob rhan o Gymru a'r gororau i Gynulliad y Gwanwyn. Bu 43 o stiwardiaid yn helpu i sicrhau fod y cynulliad yn y lleoliad newydd yn llwyddiant. John Williams enillodd gwobr y stiwardiaid, sef cwch poly wedi'i gyfrannu gan Maisemore. Daeth 4 o fasnachwyr newydd yno, gyda chyfanswm o 15 yn bresennol a chafwyd arddangosiadau gan APPA, Bee Farmers a Bees Abroad. Gwnaeth y confensiwn elw o £506.46. Rydyn ni'n edrych ar yr opsiwn o newid y lleoliad i roi lle i fwy o fasnachwyr fyddai'n hoffi bod yno.

b) Daeth 16 o aelodau i stiwardio gyda'r Archwilwyr Gwenyn yng Ngŵyl y Gwanwyn. Hoffwn ddiolch i Fred Eckton, Martin Middleton, Graham Wheeler, Keith Davies a Keith Hall fu'n gosod y stondin ar fy rhan. Eleni roedd yr wybodaeth yn ein harddangosfa'n ddwyieithog a gwelwyd lansio dwy daflen newydd. Diolch i Angharad Westmore, Andy Ryan, Trisha Marlow, Lorraine Pocklington a Chymdeithas Gwenynwyr Llanbedr Pont Steffan. Unwaith eto roedd y stondin yn boblogaidd iawn ymysg y cyhoedd a gwenynwyr o Gymru a thu hwnt.

c) Roedd gennym stondin fach yn Neuadd De Morgannwg yn y Sioe Amaethyddol Frenhinol rhwng 18 a 21 Gorffennaf. Bu Anne Lucas a Keith Hall yn goruchwylio'r stiwardiaid ar y 4 diwrnod a Keith osododd y stondin. Diolch yn fawr! Bu 21 aelod yn stiwardio ar y stondin.

ch) Mae'r gwaith cynllunio ar gyfer Confensiwn y Gwanwyn 2017 ar y gweill ers sbel. Rydym yn ehangu'r gofod i fasnachwyr yn yr Hen Neuadd Fwyd ac yn parhau gyda chynnal y darlithoedd ym Mhafiliwn Trefaldwyn. Byddwn yn gosod yn ffreutur a chornel y Gwenynwyr yn y Pafiliwn Rhyngwladol.

Mae'r siaradwr Agoriadol a'r prif siaradwyr wedi cael eu trefnu:

Bron Wright – Llywydd Cymdeithas Gwenynwyr yr Alban (agoriadol)
Yr Athro David Evans – Prifysgol St. Andrews ar y Firws Adenydd Camffurfiedig, Darlith Goffa Pam Gregory (Darlith BDI)
Phil McAnespie – Gwenyna yn ein hamgylchedd presennol
Graham Royle, NDB – Archwilydd Gwenyn Tymhorol, Meddylfryd y Cwch

d) Mae'r pwyllgor wedi bod yn gweithredu heb Gadeirydd gweithredol am y rhan fwyaf o'r 18 mis diwethaf gan nad oes gan CGC Is-Gadeirydd sydd fel arfer yn Cadeirio'r pwyllgor hwn. Mae Jenny wedi bod yn Cadeirio'r pwyllgor er mwyn gallu gwneud trefniadau ar gyfer Confensiwn 2017.

Paratowyd yr adroddiad gan Jill Wheeler Ysgrifennydd Digwyddiadau

Y Gwefeistr
www.wbka.com

Mae'r wefan wedi aros yn gymharol statig dros y 12 mis diwethaf tra bod trafodaethau ac adroddiadau'n cael eu hystyried ar ddatblygiadau yn y dyfodol. Gobeithiwn y bydd 2017 yn gweld rhai o'r syniadau gafodd eu cynnig yn cael eu rhoi ar waith.
Mae'r wefan wedi derbyn dros 1.6 miliwn o ymweliadau gan tua 100,000 o ymwelwyr, ac er bod hyn yn cynnwys ymweliadau wedi'u hawtomeiddio gan beiriannau chwilio ac ati, mae hyn yn dal i ddangos poblogrwydd y safle.

Golygydd
Gwenynwyr Cymru
Bu esblygiad pellach yn hanes Gwenynwyr Cymru yn 2016. Mae'r newid o A5 i A4 wedi cael derbyniad da ac mae wedi caniatáu datblygiad cynyddol yn yr arddull a'r cynnwys. Rydym wedi bod yn ffodus i gadw cefnogaeth barhaus ein hysbysebwyr, gan ddenu rhai newydd hyd yn oed. Cyfrol Gaeaf 2016 oedd â'r swm uchaf o gyflwyniadau cynnwys yn ystod y flwyddyn, ac edrychwn ymlaen at fedru parhau i ddod â syniadau newydd, newyddion a straeon o bob rhan o Gymru i'n darllenwyr gyda thwf cyson mewn cyflwyniadau.

Swyddog Cyhoeddusrwydd:
Ers dod yn Swyddog y Wasg i CBC, fy nod yw codi proffil CBC ac mae hyn yn gweithio'n dda gyda chyfrifon Facebook a Twitter yn cael eu sefydlu gan ddenu a chadw dilynwyr yn raddol ond yn bendant. Bellach mae gennym 55 o ddilynwyr ar Facebook a 64 ar Twitter, gyda'r rhan fwyaf heb fod yn aelodau o gymdeithas.

Mae'r cyfrifon wedi cael nifer o ymholiadau gan rai nad ydynt yn cadw gwenyn ynghylch sut i ddelio â heidiau a hefyd gan bobl sy'n dymuno cychwyn cadw gwenyn.
Mae cyswllt wedi'i wneud gyda nifer o newyddiadurwyr radio a theledu.

Mae'r cyfrifon yn cael eu defnyddio'n bennaf i rannu newyddion all fod o ddiddordeb i'n haelodau a'n dilynwyr. Mae gwybodaeth hefyd wedi ei rhannu am ein hangen i recriwtio ymddiriedolwyr newydd yn ogystal â manylion am y Confensiwn a'r CCB ac ati.

Yn yr 21 Ganrif, cyfryngau cymdeithasol yw'r prif ddull cyfathrebu wrth i ffigurau cylchrediad papurau newydd a chylchgronau blymio. Oherwydd hyn rwy'n ceisio sicrhau fod CGC yn darparu gwybodaeth sydd wedi'i hymchwilio'n dda, newyddion sy'n canolbwyntio ar Gymry, a ffynhonnell gwybodaeth ddibynadwy a chywir am wenyna.

Ein stori fwyaf poblogaidd oedd yr un am wreiddiau'r ymadrodd Mis Mêl. Cyrhaeddodd y stori yma dros 3,500 o bobl; bydd pob un ohonynt wedi gweld CGC ac felly bydd ein proffil yn gwella.

Byddai'n beth da i rai nad ydynt yn aelodau, ac i aelodau potensial CGC, ac aelodau Cymdeithasau eraill i wybod mwy am beth sy'n digwydd mewn Cymdeithas nodweddiadol: pam mor aml mae cyfarfodydd ac ymweliadau i wenynfeydd yn digwydd, manylion sioeau CGC a sioeau mêl ac unrhyw ddigwyddiadau eraill sydd wedi eu trefnu gennych.

Os gall Cymdeithasau roi gwybod i ni beth sy'n digwydd, fe hoffen ni gynnwys detholiad o'r rhain ar ein Gwefan a'n tudalennau Facebook a Twitter. Gallwch wneud hyn drwy bostio ar ein tudalen, anfon neges neu anfon e-bost atom - publicity@wbka.com.

Byddai'n beth da i gynnwys proffil o rai Cymdeithasau er mwyn i ddarpar wenynwyr weld ein Cymdeithasau fel y llefydd gorau i fynd atynt os ydyn nhw am gychwyn cadw gwenyn neu os ydyn nhw angen cyngor am gytrefi sydd ganddynt yn barod. Mantais arall o wneud hyn fyddai gallu rhoi gwybod i'r gymuned ehangach bod ein Cymdeithasau'n fodlon addysgu cymunedau ar bwysigrwydd peillwyr ac am beth y gallan nhw ei wneud i'w denu ac felly i wella ein hamgylchedd i bawb a phopeth. Cysylltwch â fi os hoffech chi gymryd rhan.

Swyddog Technegol:-

Gwasanaeth Archwilio Gwenyn: Mae'r Gwasanaeth Archwilio Gwenyn (BIS) wedi parhau i weithio'n agos gyda CGC. Cafodd y cyfrifoldeb dros y gwasanaeth ei symud oddi wrth yr Uned Genedlaethol Gwenyn (NBU) i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) yn 2015. Bu peth newid yn y staff a bydd Frank Gellatly yn adrodd ar y rhain ac ar ystadegau clefydau yng Nghymru yn ystod tymor 2016.

Problemau Brenhines: Bu nifer o adroddiadau am broblemau brenhines eleni: cytrefi'n methu ailfreninesu, haenau gwenyn gormes, disodli cynnar, breninesau'n peidio dodwy neu'n diflannu heb unrhyw reswm amlwg ac heb adael darpariaeth ar gyfer brenhines newydd. Rhoddwyd y bai'n gyffredinol ar baru gwael oherwydd y tywydd a gwenyn gormes diffygiol. Mae'n debygol bod gan y firws adenydd camffurfiedig (DWV) ran fawr yn y broblem ac mae ymchwil ddiweddar wedi cadarnhau bod breninesau'n gallu cael eu heintio wrth baru gyda gwenyn gormes sy'n cario'r firws. Cyn hyn roedd tybiaeth nad oedd gwenyn gormes oedd wedi eu heintio'n gallu paru neu o leiaf eu bod dan anfantais wrth gystadlu gyda gwenyn gormes heb eu heintio, ond dangoswyd nad yw hynny'n wir. Ydy'r broblem yn gwaethygu? Efallai, ond nid yw profiad blwyddyn yn ddigon i ddod i unrhyw gasgliad. Cynhyrchodd CGC holiadur i ganiatáu i wenynwyr rannu eu profiadau yn y gobaith y gallai hyn daflu goleuni ar y broblem, ond nifer fach ymatebodd i'r holiadur.

Chwilen Fach y Cwch: Ddiwedd Gorffennaf 2016 canfuwyd fod Chwilen Fach y Cwch wedi lledu o'r ardal a heintiwyd yn wreiddiol yn nhalaith Regio Calabrio yn ne'r Eidal. Mae'r ardal newydd tua 100km i'r gogledd yn nhalaith Cosenza. Canfuwyd chwilod mewn nifer o wenynfeydd gwenynwyr heb eu cofrestru ac roedd y dystiolaeth yn dangos eu bod eisoes wedi magu. Mae chwilod hefyd wedi cael eu canfod mewn nifer o gytrefi cnewyllyn sentinel sy'n cael eu defnyddio i ganfod llediad y clefyd. Ceisio difa yw'r polisi o hyd, ond heb os mae'r naid yma dros bellter maith yn ergyd drom i'r strategaeth honno. Does dim achosion newydd wedi eu canfod yn Sicily, lle mae'n ymddangos fod difa wedi gweithio.

DS – Yn yr adroddiad rhoddwyd cryn bwyslais ar y ffaith mai mewn gwenynfeydd gwenynwyr 'heb eu cofrestru' y cafodd llediad y clefyd ei ganfod. Mae hyn yn debygol o roi mwy o bwysau ar y DU i gyflwyno cofrestru gorfodol i wenynwyr (trafodaeth bellach isod).

Y Gacynen Asiaidd: Rwy'n siŵr y bydd pob gwenynwr yn ymwybodol fod y Gacynen Asiaidd wedi cyrraedd y DU yn 2016. Ym mis Medi adroddwyd am gacwn yn ardal Tetbury, Sir Gaerloyw. Daeth staff Gwasanaeth Archwilio Gwenyn APHA o hyd i'r nyth a chafodd ei ddinistrio. Cafodd y nyth ei adfer yn gyfan ac ar hyn o bryd mae'n cael ei archwilio gan yr Uned Gwenyn Cenedlaethol (NBU) yn Efrog i geisio canfod a yw wedi cyrraedd y cyfnod yn ei gylch bywyd lle roedd breninesau newydd wedi cael eu cynhyrchu. Mae'n debyg nad yw hyn mor hawdd ag y mae'n swnio, ac nid yw'r canlyniad ar gael ar hyn o bryd. Daethpwyd o hyd i un cacwn mewn trap gwenynwr ym Mryniau'r Mendip yng Ngwlad yr Haf. Doedd dim arwydd o nyth i'w ganfod ond mae amheuaeth o hyd y gallai

bod un yno heb ei ganfod. Dylai bod diweddariad ar hyn i gyd yng nghyfarfod BHAF ym mis Mawrth 2017. O ran diddordeb, rhowch 'Asian hornet UK' yn Google a chewch eich llethu bron gan straeon panig a gwybodaeth anghywir.

Cyfarfodydd Fforwm Ymgynghorol Iechyd Gwenyn (BHAF): Roedd pedwar cyfarfod o BHAF wedi'u trefnu ar gyfer 2016. Yng nghyfarfod y gwanwyn cafwyd cyflwyniad ar y fethodoleg fyddai'n cael ei defnyddio ar gyfer peilot o gyfri cychod yn y DU. Fe gofiwch mai'r nod oedd cynhyrchu ffigur ar gyfer niferoedd cychod (gan ddefnyddio methodoleg dderbyniol) er mwyn hawlio cyfradd y DU o Gronfa Gwenynyddiaeth yr UE (fel arfer ychydig dros £400k). Rhan o'r broses oedd bod yr NBU wedi anfon e-byst at wenynwyr i ddiweddaru cofnodion eu cychod ar BeeBase. Cafodd cyfarfod haf BHAF, lle roedden ni i fod i gael adroddiad ar y cyfrif peilot, ei ganslo yn sgil canlyniadau pleidlais Brexit. Doeddwn i na John Bowles ddim yn gallu mynd i'r cyfarfod ddiwedd mis Medi oherwydd ymrwymiadau eraill (gwyliau). Unwaith eto, doedd y cyfrif cychod peilot ddim ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod ac mae'r cofnodion yn dangos mai'r prif bwnc oedd y canfyddid diweddar o'r Gacynen Asiaidd yn y DU, ond ychydig o wybodaeth oedd ar gael ar y pryd. Roedd John a minnau'n bresennol yng nghyfarfod mis Rhagfyr lle cafwyd cyflwyniadau hir ar y cyfrif cychod peilot ac ar y Gacynen Asiaidd.

Ganol fis Tachwedd cawsom wybod drwy Lywodraeth Cymru y byddai'r cyfrif cychod peilot gafodd ei gynnal yn gynharach yn y flwyddyn yn cael ei ailadrodd ar gyfer 2016 ac y byddai e-byst at wenynwyr yn cael eu hanfon yr wythnos ganlynol. Nid oedd cynrychiolwyr BHAF na CGC wedi cael eu hysbysu'n uniongyrchol, ac fel rhanddeiliaid yn y Cynllun Gwenyn Iach, rydym wedi anfon cwyn difrifol am y diffyg ymgynghori. Rydym hefyd wedi cwyno am y rhybudd byr a'r ffaith nad oedd canlyniad y cyfrif wedi cael ei drafod gyda BHAF cyn y penderfyniad i ailadrodd y broses. Pwy ŵyr pa fath o ymateb caiff yr NBU y tro yma (gweler y paragraff nesaf)? O leiaf y tro hwn cafodd y broses o ddiweddaru ei wneud yn fwy cyfeillgar i'r defnyddiwr. Y cynnig ar hyn o bryd yw y bydd diweddaru'n digwydd yn flynyddol ond nid yw hi'n glir ar y funud a yw hyn yn cael ei wneud er budd yr UE neu er budd Llywodraeth y DU.

Cafodd yr adroddiad ar y cyfrif peilot ei gyflwyno i BHAF yn gynnar ym mis Rhagfyr (3 wythnos ar ôl cychwn yr ail gyfrif). Dangosodd yr adroddiad fod 48% o'r e-byst gafodd eu hanfon at wenynwyr heb gael eu hagor hyd yn oed! O'r 52% gafodd eu hagor nid yw'n hysbys faint o wenynwyr ymatebodd drwy ddiweddaru eu cofnodion – camsyniad difrifol yn y fethodoleg. Gan gymryd cofnodion gwenynfeydd fel ag y maent (p'un ai wedi diweddaru ai peidio), cafodd cyfartaledd y cychod sydd gan bob gwenynwr ei gyfrifo, sef 5.05 cwch yr un. O luosi hyn gyda nifer y gwenynwyr sydd wedi eu cofrestru ar BeeBase, sef ychydig dan 38,000, ac ychwanegu ychydig dan 1,000 o gychod ar gyfer Gogledd Iwerddon (sy'n amcangyfrif llawer rhy isel mae'n debyg), ceir cyfanswm o ryw 192,000. Ni chafwyd amcangyfrif o gychod gwenynwyr sydd heb eu cofrestru ar BeeBase. Mae hwn yn broblem sy'n dal heb ei ddatrys ac mae'n un o'r dadleuon dros gyflwyno cofrestru gorfodol i wenynwyr. Mynegwyd sawl beirniadaeth o'r fethodoleg ond ni chafwyd unrhyw atebion gwirioneddol.

Y pwynt gafodd ei wneud gan gynrychiolwyr WBKA oedd na chafodd BeeBase ei ddylunio i'r pwrpas hwn ac mae rôl wreiddiol a phwysicaf BeeBase oed fel ffynhonnell gwybodaeth i lywio gwaith y Gwasanaeth Archwilio Gwenyn. Mae cynnydd cyson wedi bod yn y gwenynwyr sy'n cofrestru ar BeeBase dros pum mlynedd diwethaf ac mae wedi dyblu bron (ac mae hyn i'w ganmol) ond ein hofn ni yw y bydd y diweddaru blynyddol hwn (busnesu cyson gan y Brawd Mawr yn nhyb llawer o

wenynwyr) yn profi i fod yn rwystr i gofrestru. Mewn gwirionedd, mae'r cynllun arfaethedig yn golygu Cofrestru Gwenynwyr drwy'r drws cefn.

Asid Ocsalig: Ar sail ymchwil ddiweddar, mae rhai gwenynwyr yn dechrau defnyddio anweddiad yn hytrach na'r dull diferynnu ar gyfer darparu asid ocsalig i gytrefi. Mae anweddiad yn gallu cael ei ailadrodd nifer o weithiau bob 7-14 diwrnod heb wneud difrod i'r cytrefi mae'n debyg, ac mae gan hyn fanteision strategol sylweddol wrth reoli Varroa. Fodd bynnag, mae peryglon iechyd i'r gwenynwr os nad yw'n cael ei wneud yn ofalus gyda rhagofalon digonol yn eu lle. Mae manteision ac anfanteision i anweddiad fydd yn cael eu trafod mewn erthygl sydd i ddod yn Gwenynwyr Cymru.

Cyhoeddiadau Technegol WBKA: Mae'r llyfryn '***Mae celloedd brenhines yn fy nghwch – beth dylwn i wneud?***' wedi cael ei ddiweddaru a'i ailgyhoeddi gan WKBA. Cafodd y fersiwn newydd ei ddosbarthu i bob aelod ac mae stoc dros ben ar gael i Gymdeithasau eu rhoi i aelodau newydd. Mae llyfryn newydd yng nghyfres WBKA, ***'Cynaeafu Mêl'*** bron yn barod a bydd copi'n cael ei ddosbarthu i bob aelod yn fuan. Gallaf hefyd adrodd fod y ***'Cardiau Adnabod Clefydau Gwenyn Mêl'*** yn cael eu diwygio a'u hailargraffu gan WBKA.

Adroddiad y Swyddog Yswiriant 2016

Cafodd Polisïau Yswiriant Cymdeithas Gwenynwyr Cymru eu hadnewyddu drwy'r un Broceriaid - Coversure Insurance - o'r 1 Hydref 2016. Roedd y premiymau am y flwyddyn wedi codi ychydig dan 5%. Yn ystod y flwyddyn mae nifer o ymholiadau wedi eu hanfon ymlaen atom yn holi beth sy'n gallu cael ei gynnwys dan y polisi. Gan fod y rhain yn helpu i egluro pwy a beth sydd â sicrwydd yswiriant ac o ran diddordeb cyffredinol, mae'r cwestiynau a'n hatebion i'w gweld yn gryno isod. Mae gwybodaeth bellach sy'n rhan o'r polisïau wedi'i chyhoeddi ar wefan WKBA. Mae'r ymholiadau hyn yn ymwneud â'r yswiriant cyffredinol, cyhoeddus, cyflogwr a chynnyrch ac nid am orchudd BDI.

▪ Pwy sydd wedi'i yswirio gan Yswiriant WBKA?

Y Gymdeithas Wenyna Leol sy'n aelod o WBKA. Unrhyw un sy'n aelod sy'n talu'r tâl aelodaeth llawn (aelod Anuniongyrchol) o'u Cymdeithas leol ac sydd naill ai'n talu, neu'n cael y tâl wedi'i dalu ar ei ran, tâl y pen WKBA sy'n cael ei osod am y flwyddyn ac mae aelodau Unigol (sydd ddim yn aelodau o Gymdeithas) yn gyfrifol am dalu'r swm yma fel rhan o'u tâl aelodaeth aelod unigol. Bydd yr yswiriant yn berthnasol i niwed sy'n cael ei achosi gan eu gweithgaredd esgeulus (ond nid cosbau am weithgaredd troseddol) neu am niwed sy'n cael ei achosi gan gynnyrch eu gwenyna. Mae peth camddealltwriaeth wedi bod am hyn, ac rydym ar hyn o bryd yn edrych i weld sut y gallwn newid geiriad y Cyfansoddiad i gael gwared ar y posibilrwydd o aelod yn bod heb ei yswirio.

▪ Cafodd cwestiwn ei hili am yr atebolrwydd dros ferlyn oedd wedi ei anafu pan gafodd ei ddychryn o ganlyniad i'r sŵn a gynhyrchwyd gan gytref oedd yn dechrau heidio ar dir cyfagos i'w gae.

Y farn gyntaf yw er nad yw ceffylau a gwenyn yn gwmni da i'w gilydd, ei bod hi'n anodd gweld sut y byddai modd rhagweld sefyllfa fel hyn ac yn anodd gweld sut y byddai'r gwenynwr yn cael ei ddyfarnu'n atebol. Mae hi'r un mor bosibl i haid lanio mewn coeden neu ar ffens yn agos at geffylau ond bod yr haid wedi teithio cryn bellter. Unwaith eto, mae hyn yn broses naturiol ac mae'n anodd gweld sut y byddai modd pennu atebolrwydd. Rydym wedi bod yn casglu gwybodaeth am y digwyddiad penodol hwn ac rwy'n siŵr y bydd ein hyswiriwr yn rhoi gwybod i ni am y penderfyniad cyn bo hir.

▪ Ceisiadau am eglurhad ynghylch yswiriant ar gyfer digwyddiadau sy'n cael eu cynnal ar safleoedd ar wahân i wenynfeydd y Gymdeithas e.e. gerddi, tir preifat neu dir sy'n eiddo rhywun arall

Os yw Cymdeithas yn cynnal digwyddiad mewn gardd un o'r aelodau mae'n debyg y byddai'r atebolrwydd yn cael ei rannu ar deilyngdod rhwng yswiriant atebolrwydd cyhoeddus WBKA ac yswiriant cartref perchennog y tŷ. Byddai'n ddoeth holi'r cwmni sy'n yswirio eich tŷ i weld a fyddai digwyddiadau fel hyn yn dod o fewn yr yswiriant gan ei bod hi'n bosibl y byddai yswiriwr yn ystyried hyn yn weithgaredd busnes, yn enwedig os mai digwyddiad hyfforddi neu sesiwn flasu sy'n cael ei gynnal.
Os yw'r digwyddiad yn cael ei gynnal ar eiddo rhywun arall, e.e. yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yna bydd atebolrwydd eto'n cael ei rannu gan ddibynnu ar achos y niwed. Os profir mai rheolwyr y digwyddiad gan y Gymdeithas neu ei aelodau fu'n esgeulus yna byddai yswiriant WBKA yn weithredol. Os mai canlyniad esgeulustod y tirfeddiannwr oedd y digwyddiad a'r niwed yna ei yswiriwr yntau fyddai'n atebol. Mae hi bob amser yn ddoeth gwirio gyda'r tirfeddiannwr fod ei yswiriant yn addas ar gyfer gweithgareddau o'r fath. (Dylai'r YG fod yn iawn!)

▪ Statws gwirfoddolwyr
Fel aelodau Cymdeithas mae'r rhan fwyaf ohonom yn gwirfoddoli ar gyfer nifer o swyddogaethau – swyddogion y gymdeithas, hyfforddwyr, aelodau sy'n helpu i ofalu am wenyn a chynnal y wenynfa. Mae'r yswiriwr yn ystyried pob un o'r gwirfoddolwyr yn "gyflogedigion". Yn nhermau deddfwriaeth droseddol, e.e. y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, yn arferol byddai'n rhaid i ni fod ag o leiaf un cyflogai cyn i'n gwirfoddolwyr ddod o dan y rheoliadau. Yn ein hachos ni, mae'r yswirwyr yn galw arnom i ddarparu yr un dyletswydd gofal i'n gwirfoddolwyr ag y byddem i gyflogai. Nid yw hyn yn annheg wrth i chi ystyried bod rhai o'r prosesau a wnawn yn gallu bod yn eithaf peryglus. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael eu diogelu rhag cael eu pigo, cyn belled ag y mae hynny'n bosibl drwy wisgo siwtiau a menig. Mae gennym hefyd yr un dyletswydd gofal pan fyddan nhw'n gwneud pethau eraill fel defnyddio offer peirianyddol, plaleiddiaid, e.e. chwynladdwyr, asid ocsalig a thrafod â llaw.
Mae angen i ni felly sicrhau bod ymdrechion rhesymol yn cael eu gwneud i gynnal a chofnodi asesiadau risg effeithiol a darparu offer gwarcheidiol i'n gwirfoddolwyr a cheisio sicrhau yn erbyn y risgiau mwyaf difrifol. Gweler yr adroddiad byr ar Iechyd a Diogelwch sydd wedi'i gynnwys fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol.

▪ Aelodau sy'n cael adwaith sylweddol i bigiadau gwenyn
Mae gan o leiaf un Cymdeithas aelod sydd wedi cael ei gynghori gan ei feddyg i gario Epipen wrth drafod gwenyn, yn cynnwys pan fydd yng ngwenynfa'r Gymdeithas. Yn naturiol, roedd rhai o'r unigolion oedd yn darparu hyfforddiant wedi gofyn am eglurhad ynghylch eu hatebolrwydd personol ac atebolrwydd y Gymdeithas pe byddai rhywbeth yn digwydd.
Mae'n hyswirwyr wedi ein sicrhau y byddai'r Gymdeithas ac hyfforddwyr unigol wedi eu hyswirio (cyn belled â bod yr hyfforddwyr yn aelodau llawn o'u Cymdeithas) ar yr amod bod y Gymdeithas yn cynnal a chofnodi asesiad risg ac yn cymryd mesurau rheoli rhesymol. Byddai mesurau rheoli rhesymol yn cynnwys cael rhywun i gymryd cyfrifoldeb dros roi'r pigiad Epipen pe byddai rhywbeth yn digwydd a lle nad yw'r dioddefwr yn ymwybodol a hyd yn oed yn fwy sylfaenol, ond yr un mor bwysig, sicrhau bod yr unigolyn wedi dod â'i Epipen i'r digwyddiad. Dylai'r gallu i alw am gymorth proffesiynol fod yn gyffredin i bob sefyllfa, h.y. fod gan rhywun ffôn symudol a bod signal neu bod llinell ffôn ddaearol gerllaw a'ch bod yn ymwybodol o god post a hydred a lledred y safle.

▪ Hyfforddi plant
Does dim sicrwydd yswiriant ar gyfer cosbau neu iawndal sy'n daladwy mewn achos o gam-drin plentyn neu oedolyn agored i niwed. Dylai fod gan pob Cymdeithas bolisi sy'n trafod y risgiau penodol sy'n gysylltiedig â hyfforddi neu mentora plant neu oedolion agored i niwed. Lle mae hyn yn digwydd yn helaeth dylid ystyried defnyddio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Lle mae ysgol neu sefydliad arall yn gwneud cais am hyfforddiant, eu cyfrifoldeb nhw fydd gwneud cais am dystlythyr DBS.

Adroddiad yr Ymddiriedolwr Iechyd a Diogelwch 2016

Yn ystod 2016 bu John Pilgrim yn ddigon caredig i wirfoddoli i ymgymryd â swydd Swyddog Iechyd a Diogelwch i CGC. Un o'i ddyletswyddau cyntaf oedd archwiliad ac asesiad risg "ar y dydd" yng Nghonfensiwn CGC ar Faes y Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd. Er bod y trefnwyr eisoes wedi gwneud gwaith rhagorol, roedd John yn gallu gwneud rhai argymhellion.

Yn ddiweddarach yn y flwyddyn ysgrifennodd John at yr holl Gymdeithasau i geisio cael gafael ar unrhyw ddogfennau cysylltiedig â Iechyd a Diogelwch oedd wedi eu creu ganddynt er mwyn eu defnyddio i ddatblygu templedi i'w defnyddio gan bob Cymdeithas yng Nghymru. Wedi'r cyfan, pam ailddyfeisio'r olwyn! Ond roedd yr ymateb yn siomedig iawn. Dydyn ni ddim yn siŵr ai diffyg diddordeb oedd y rheswm am hyn neu efallai nad yw'r rhan fwyaf o Gymdeithasau wedi meddwl rhyw lawer am faterion Iechyd a Diogelwch ac heb fynd ati i lunio polisïau, gweithdrefnau ac asesiadau risg ffurfiol. Diolch yn fawr i'r Cymdeithasau hynny a wnaeth ymateb.

Er i Bolisi Iechyd a Diogelwch CGC gael ei anfon at bob Ysgrifennydd Aelod Gymdeithasau gan argymell eu bod yn defnyddio'r templed, cytunwyd efallai bod diffyg dealltwriaeth o'r gofynion sylfaenol ar gyfer rheoli risg mewn Cymdeithasau ac yn eu gweithgareddau. Gyda rhai eithriadau amlwg, nid yw gwenyna'n grefft/diddordeb risg uchel, ond rhaid cydnabod rhai o'r risgiau sy'n wynebu ein gwirfoddolwyr ac mae angen sylweddoli bod rhai i swyddogion y Gymdeithas gymryd peth cyfrifoldeb dros gymryd camau rhesymol i leihau'r risgiau hynny.

Er mwyn helpu gyda hyn mae John Pilgrim wrthi'n drafftio gwahanol dempledi ar gyfer asesiadau risg a threfniadau rheoli risg y bydd modd i Aelod Gymdeithasau eu "personoli" at eu defnydd eu hunain. Wrth ddrafftio rhai o'r templedi gweithdrefnau byddwn yn "benthyg" dogfennau sydd eisoes yn cael eu defnyddio, gyda chaniatâd y Cymdeithasau perthnasol.

Rydym wedi ymgynghori ar y drafftiau hyn a byddaf i a John yn cwrdd yn ddiweddarach yn y Gwanwyn i orffen y templedi. Gobeithio y byddwch yn gwneud defnydd da o'r dogfennau ac yn nodi'r gofynion ar gyfer sicrhau bod gwirfoddolwyr yn derbyn yr hyfforddiant a'r offer amddiffynnol perthnasol pan fydd gofyn iddynt wneud y gweithgareddau mwy peryglus wrth ofalu am a thrin gwenyn mêl ac wrth gynnal a chadw tiroedd.

Aelodaeth:

Gweler y ddogfen wedi'i hatodi i gael manylion aelodaeth CGC yn 2015.

Datganiad: Mae'r Ymddiriedolwyr yn datgan iddynt gymeradwyo adroddiad yr ymddiriedolwyr uchod

Llofnodwyd ar ran ymddiriedolwyr yr elusen

Llofnod:

Enw llawn: Jennifer Mary Shaw

THE WELSH BEEKEEPERS' ASSOCIATION
CYMDEITHAS GWENYNWYR CYMRU

Swydd: Cadeirydd

Dyddiad: 28 Ionawr 2017